# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Courtland,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 29 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9913-3



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .................................................................................. 6

3. Yr hyn a ganfuom............................................................................................. 8

Ansawdd profiad y claf ......................................................................................9

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.........................................................20

4. Beth nesaf?.................................................................................................... 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol..................................................... 23

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad..........24

Atodiad B – Cynllun gwella brys ......................................................................25

Atodiad C – Cynllun gwella..............................................................................26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol**
- **Proffesiynol: rydym yn gweithredu gyda dull effeithlon, effeithiol a chymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Courtland, 23 Courtland Terrace, Merthyr Tudful, CF47 0DT, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 25 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Courtland yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig. Fodd bynnag, canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio’n llawn â’r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac mae systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Mae’r tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys offer da ac roeddent yn lân ac yn daclus
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a’u dadheintio’n briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Mae’n rhaid arddangos rhestr prisiau ar gyfer cleifion preifat mewn lle amlwg
- Mae’n rhaid i’r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy’n cyflawni anghenion cleifion
- Mae angen datblygu prosesau casglu adborth gan gleifion
- Tystiolaeth a phrosesau dadheintio
- Adolygu’r polisi dadebru

- Mae angen adnewyddu gwiriadau diogelu pedwar deintydd
- Mae’n rhaid i’r prif ddeintydd sicrhau bod hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â’r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael ei drefnu mewn da bryd
- Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau bod y canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy’n gysylltiedig â chofnodion cleifion yn derbyn sylw.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Courtland yn darparu gwasanaethau i gleifion ym Merthyr Tudful. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd (rhai ohonynt yn gweithio’n rhan amser), pedair nyrs ddeintyddol (y mae un ohonynt hefyd yn darparu rôl rheolwr y practis), dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un therapydd, un hylenydd, dau aelod o staff y dderbynfa, ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preif

## Ansawdd profiad y claf

*Buom yn siarad gyda'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo’n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i’n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol Courtland yn gweithio’n galed i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, a’i fod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i’w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy ein holiaduron i gleifion yn gadarnhaol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i roi holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn gofyn eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Llenwyd a dychwelwyd cyfanswm o 20 holiadur.

Roedd y mwyafrif o’r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis am fwy na dwy flynedd. Ar y cyfan, dywedodd y cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn fodlon â’r gwasanaeth roeddent wedi’i gael yn y practis. Roedd sylwadau’r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Dyma un o’r deintyddion gorau i mi ei weld erioed, ac mae’r holl staff yn eithriadol."*
>
> *"Gwasanaeth da iawn. Cefais lawer o wybodaeth ganddynt am y triniaethau oedd ar gael. Mae’r staff yn broffesiynol a chyfeillgar iawn.”*
>
> *"Rwyf wedi bod gyda’r practis ers 20 mlynedd ac rwy’n fwy na bodlon â’r gwasanaeth yr wyf i am ddau o blant wedi’i dderbyn.”*

### Cadw’n iach

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad gyda hwy ynglŷn â sut i gadw eu ceg a’u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo’r cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a’u llesiant eu hunain. Roedd llawer o wybodaeth benodol am hybu iechyd deintyddol ar gael. Golyga hyn fod gan y cleifion fynediad at wybodaeth a allai

eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid geneuol eu hunain, gan gynnwys y siartiau troi a'r taflenni gwybodaeth oedd wedi'u harddangos yn yr ystafell aros.

## Gofal ag urddas

Roedd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi derbyn triniaeth barchus wrth ymweld â'r practis a chawsant groeso gan dîm y practis. Gwelsom y ffordd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol yr oedd y staff yn gofalu am y cleifion.

Roedd ardal breifat ar gael i'r staff gael sgyrsiau gyda chleifion, i ffwrdd oddi wrth y cleifion eraill, pe byddai angen hynny, at ddibenion cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth cleifion

Dywedodd ychydig o dan chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oedd cost eu triniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt bob tro cyn iddynt dderbyn y driniaeth. Ar yr un thema, dywedodd nifer uchel o gleifion a gwblhaodd holiadur hefyd nad oeddent yn deall sut mae cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaeth y GIG ar gael yn yr ystafell aros, er mwyn i'r cleifion weld beth yw'r costau. Fodd bynnag, nid oedd rhestr brisiau i gleifion preifat wedi'i harddangos yn amlwg.

Mae gan y practis arddangosfa "cwrdd â'r practis" yn yr ystafell aros, sy'n darparu gwybodaeth am y practis i gleifion. Gwelsom fod manylion y deintyddion ac oriau agor y practis wedi'u harddangos yn allanol.

Dylai'r practis wella ei wybodaeth a'i ddulliau cyfathrebu dwyieithog lle bydd angen.

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen arddangos rhestr o brisiau i gleifion preifat mewn lle amlwg er mwyn hysbysu'r cleifion o'r costau perthnasol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd nifer fach o'r cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Er bod rhai o'r cleifion hyn wedi dweud y gallent bob amser siarad gyda'r staff yn eu dewis iaith yn y practis, dywedodd cleifion eraill mai dim ond weithiau y gallent wneud hyn. Dywedodd y mwyafrif helaeth o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym, nad ydynt yn siarad Cymraeg, eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Mae'n rhaid i'r practis weithredu trefniant ffurfiol er mwyn i gleifion gael mynediad at wasanaethau cyfieithu. Mae'n rhaid cynnig gwasanaeth cyfieithu i gleifion a allai fod ei angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n cyflawni anghenion y cleifion, gan gynnwys y cleifion hynny sy'n siarad Cymraeg.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Dim ond nifer fach o gleifion a oedd wedi cwblhau'r holiadur a ddywedodd na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Gwelsom fod manylion y rhif ffôn mewn argyfwng wedi'u harddangos yn allanol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur i ni fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Roedd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi bod yn rhan (i'r graddau yr oeddent yn dymuno hynny) o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi'u helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt pan oedd angen triniaeth arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu hysbysu a'u hannog i ofalu am eu dannedd/deintgig ar ôl a rhwng apwyntiadau.

## Hawliau pobl

Mae gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae mynediad gwastad i un ystafell driniaeth ar y llawr daear, sy'n golygu y gall cleifion ag anawsterau symudedd ei defnyddio. Mae toiled y cleifion wedi'i leoli ar y llawr daear. Gall defnyddwyr cadair olwyn gael mynediad i lefel llawr daear y practis gyda chymorth gan staff a gallant gael mynediad i'r dderbynfa, yr ystafell aros a'r ystafell driniaeth.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwynion ysgrifenedig ar gyfer pryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG. Roedd y weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ynglŷn â thriniaeth y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella').[1]

Dywedodd ychydig o dan chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Roedd manylion y weithdrefn gwyno ar gael ar wal yr ystafell aros. Roedd gwybodaeth hefyd ar gyfer gweithdrefnau cwyno cleifion preifat yn yr ystafell aros, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008.[2] Cadarnhaodd rheolwr y practis fod copïau o'r gweithdrefnau cwyno ar gael ar ddesg y dderbynfa. Golyga hyn fod gan y cleifion fynediad rhwydd i'r wybodaeth hon, pe byddai ei hangen arnynt.

Ychydig iawn o gwynion a dderbyniwyd yn y blynyddoedd diweddar ac roedd ffeil gwynion yn cael ei defnyddio gyda thystiolaeth i ddangos bod y cwynion hynny wedi derbyn ymateb yn unol â'r polisïau cwyno. Awgrymwyd y dylai'r practis ddefnyddio cofnod pryderon i gofnodi pryderon anffurfiol yn ganolog er mwyn gallu nodi unrhyw themâu cyffredin.

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi derbyn cais i fynegi eu barn ar y practis deintyddol – er enghraifft, drwy holiaduron cleifion. Trafodwyd proses y practis o gasglu adborth gan gleifion. Dywedodd y practis

[1] http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

wrthym bod angen iddynt ddatblygu system ffurfiol i gasglu safbwyntiau cleifion. Awgrymwyd y dylai'r practis ddatblygu arolwg cleifion er mwyn i gleifion ddarparu eu hadborth. Fe wnaethom awgrymu hefyd bod y practis yn arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd yn yr ystafell aros / y dderbynfa er mwyn dangos i gleifion eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r dull o gyflenwi gwasanaethau yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Mae cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân a thaclus. Roeddem yn fodlon â'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hosgoi.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau mewn argyfwng ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Fodd bynnag, mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pedwar deintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Gwelsom fod profion ar offer trydanol symudol (PAT) wedi eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio yn y practis. Gwelsom fod dystysgrif archwilio gwifrau trydan bob pum mlynedd ar gyfer y safle hefyd.

Roedd un toiled ar gyfer y ddau ryw ar gael i'w ddefnyddio gan y cleifion ar y llawr daear. Roedd arwyddion clir ar gyfer y cyfleusterau hyn ac roeddent yn amlwg yn lân, gyda bin gwaredu hylendid ar gael.

Roedd asesiadau risg mewn perthynas â'r Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau, yn ogystal ag asesiadau risg. Roedd sylweddau COSHH yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi'u gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf, gyda chontract cynnal a chadw'r offer tân ar waith ac arwyddion tân ac asesiad risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith. Rhoddwyd cyngor ar ddiwrnod yr arolygiad y dylai'r practis ystyried ardaloedd y grisiau a phen y grisiau yn eu hasesiad risg amgylcheddol.

### Atal a rheoli heintiau

Gofynnwyd am farn y cleifion yn yr holiaduron ar ba mor lân oedd y practis deintyddol yn eu barn hwy. Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn gan y cleifion yn yr holiaduron; er bod rhai cleifion o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn, roedd cleifion eraill o'r farn nad oedd y practis deintyddol yn lân iawn neu ddim yn lân o gwbl. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Roeddem yn fodlon â'r trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hosgoi yn y practis deintyddol. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi gweld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith yn y practis, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Ystafell benodedig ar gyfer glanhau a dadheintio cyfarpar deintyddol
- Argaeledd a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol gan gynnwys menig untro, ffedogau a diogelwch llygaid
- Sinc benodol ar gyfer golchi dwylo
- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a dadheintio cyfarpar yn amlwg mewn cyflwr da
- Roedd yr offer yn cael eu storio a'u cludo'n briodol ac roedd eu pecynnau wedi'u dyddio i ddangos erbyn pryd yr oedd angen eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom dystiolaeth bod dau aelod o staff newydd yn llofnodi a dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried polisïau allweddol. Gwelsom fod statws gwirio imiwnedd brechiad ar gyfer aelodau o staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05)[3] ac roedd aelodau o staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ar ddadheintio ar sail bob pum mlynedd. Dywedodd y prif ddeintydd eu bod yn bwriadu darparu cypyrddau newydd yn yr ystafelloedd triniaeth. Roedd dogfennaeth contractau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

Nodwyd bod angen gwelliannau mewn dau faes. Mae angen protocol dilysu wrth osod pob darn o offer dadheintio. Dylai'r peiriannydd gwasanaeth sydd wedi cynnal cwrs profi ardystiedig brofi neu ddilysu'r offer. Mae'n rhaid cadw tystiolaeth o amserlenni a phrofion dilysu ar gyfer y ddau faddon uwchsonig (mae glanhau uwchsonig yn broses sy'n defnyddio uwchsain a thoddydd glanhau priodol – weithiau dŵr tap cyffredin – i lanhau eitemau). Mae angen stampio dyddiadau dod i ben a dyddiadau prosesu ar y cydau sterileiddio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cadw tystiolaeth o ddilysu a phrofi ar gyfer y ddau faddon uwchsain yn unol â WHTM 01-05.

Mae angen stampio'r dyddiadau dod i ben a'r dyddiadau prosesu ar y cydau dadheintio.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ddangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain wedi'u harddangos ym mhob ardal berthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau argyfwng wedi'u storio'n ddiogel ac ar gael ar unwaith mewn achos o argyfwng meddygol (cwymp neu lewyg claf) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau'n gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-pwlmonaidd. Mae angen adolygu'r polisi dadebru i gynnwys

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

lleoliad yr offer a'r rolau a'r cyfrifoldebau. Roedd swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig penodedig ar gael yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r polisi dadebru i gynnwys lleoliad yr offer a'r rolau a'r cyfrifoldebau.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu llesiant a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed a allai fod mewn perygl. Y rheswm am hyn yw bod polisïau diogelu priodol ar waith ac roedd hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau o staff perthnasol.

Roedd trefniadau ar waith i staff allu mynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hyn yn ymarferol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Fe wnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y ddeintyddfa a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Nodwyd bod y ddeintyddfa wedi'i chynllunio a'i threfnu i helpu'r tîm weithio'n effeithlon ac roedd yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi'i ddylunio a'i drefnu i sicrhau defnydd diogel o offer ymbelydredd. Fe wnaethom gynghori bod angen cynnwys y mapiau diagram pelydr-X a oedd ar gael yn y practis yn y ffeil ymbelydredd, i ddangos bod peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r staff sy'n cymryd y delweddau radiograffeg wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4]

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad fe wnaethom nodi bod lle wedi'i drefnu i ddau aelod o'r staff nyrsio deintyddol fynychu cyrsiau hyfforddiant ymbelydredd mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar 12 Mehefin 2017, oherwydd bod angen diweddaru eu hyfforddiant yn y maes hwn. Cadarnhawyd, yn dilyn yr arolygiad, bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau a bod AGIC wedi derbyn tystiolaeth o'r ardystiad. Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd sicrhau bod hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael ei drefnu mewn da bryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant diweddaru ar ddiogelwch ymbelydredd yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa oherwydd bod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau a meddyginiaeth (rhagnodi). Roedd archwiliad radioleg wedi'i drefnu.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd

Dywedodd y prif ddeintydd fod y practis wedi bod yn gweithio gydag Archwiliad Clinigol ac Adolygiad Cymheiriaid Deoniaeth Cymru, neu CAPRO.[5] Hefyd, dywedodd y prif ddeintydd fod prosesau adolygu ansawdd cymheiriaid yn cael eu cynnal yn fewnol o dro i dro. Fe wnaethom gynghori'r practis y dylent ddatblygu a pharhau gyda'r prosesau adolygu cymheiriaid – er enghraifft, archwiliad cadw cofnodion clinigol.

[5] https://www.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth

Roedd ffeiliau'r cleifion yn cael eu storio'n briodol, er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Gwnaed copïau wrth gefn yn rheolaidd o'r holl ffeiliau electronig ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac arwahanol. Roedd polisi diogelu data ar waith.

## Cadw cofnodion

Ystyriwyd sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion, ac yr oedd y rhain yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol y mae angen eu gwella:

- Cysondeb nodiadau'r cleifion, gan gynnwys hanes cymdeithasol
- Cysondeb y cofnodion a'r cyfiawnhad am gynnal radiograffau
- Mae angen ystyried amlder y radiograffau (bite wing) yn unol â'r canllawiau
- Mae angen gwella cysondeb cofnodion sgrinio canser y geg.

Cafodd y canfyddiadau hyn eu trafod gyda'r deintyddion mewn manylder ac fe wnaethom gynghori, ac fe wnaethant gytuno, y byddent yn cyflwyno rhaglen adolygu cymheiriaid ar gyfer cofnodion y cleifion, er mwyn gwella ansawdd y cofnodion ymhellach.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r deintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad ar gadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Cynghorir y practis i gynnal archwiliad ar gadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Y prif ddeintydd oedd yn berchen ar y practis. Roedd pum deintydd arall a thîm staff sefydlog. Roedd gan y practis reolwr i gynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod ystod o bolisïau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo bod uwch aelodau o staff y practis a'u cydweithwyr yn gefnogol. Roeddent yn dweud hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Courtland, ac mae'n cael cefnogaeth pum deintydd arall a thîm ehangach y practis. Mae gan y practis reolwr sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosydd y prif ddeintydd a rheolwr y practis yr ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym.

Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan holl aelodau tîm y practis. Gwelsom fod yr aelodau staff yn glir ac yn wybodus ynglŷn â'u swyddi a'u cyfrifoldebau. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd y practis, a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd gyda phwyntiau gweithredu a chofnodion yn cael eu cadw.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch yr aelodau staff a'r cleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau perthnasol i'w swyddi. Roedd yr aelodau staff hefyd yn cadarnhau eu bod yn cael cymorth ac anogaeth gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant yn y meysydd hynny sy’n cael eu hargymell yn gryf gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd gan y practis dîm sefydlog a sefydledig, a gwelsom dystiolaeth o waith tîm da ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad o’u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol ar waith o ganlyniad i’w harfarniadau.

Gwelsom fod y deintyddion a’r staff nyrsio wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol er mwyn gweithio a bod ganddynt yswiriant indemniad.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r aelodau staff wedi eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn cleifion ac amddiffyn eu hunain rhag heintiau.

Roedd y deintyddion sy’n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru AGIC wedi eu harddangos yn amlwg yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o staff yn destun gwiriadau cyn iddynt ymuno â’r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer pedwar deintydd, yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pedwar deintydd, yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae angen darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad ac mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae'n cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae'n cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylder i ddarparu sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis ’Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae’r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella brys

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Courtland

## Dyddiad yr arolygiad: 25 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Courtland

## Dyddiad yr arolygiad: 25 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n rhaid arddangos rhestr o brisiau i gleifion preifat mewn lle hygyrch ac amlwg er mwyn hysbysu'r cleifion o'r costau perthnasol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>Rheoliad 14 (1) (b)<br><br>Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.1 | Mae ein rhestr o brisiau preifat yn cael ei harddangos yn awr ar hysbysfwrdd y cleifion yn yr ystafell aros. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae’n rhaid i’r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy’n cyflawni anghenion y cleifion, gan gynnwys y cleifion hynny sy’n siarad Cymraeg. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2 | Mae dogfennau PRW, cynlluniau triniaeth a llyfrau derbynebau ar gael. Hefyd, rydym yn llunio taflen gwybodaeth i gleifion yn Gymraeg ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Mae’n rhaid i’r practis ddatblygu system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal sy’n cael ei ddarparu. | Safonau Iechyd a Diogelwch 6.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (2)<br><br>Canllawiau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1 | Bydd holiadur cleifion blynyddol yn cael ei ddatblygu a’i roi i gleifion a bydd safbwyntiau’r cleifion yn cael eu hadolygu a’u cofnodi. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | 30 Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen cadw tystiolaeth o ddilysu a phrofi ar gyfer y ddau faddon uwchsain yn unol â WHTM 01-05. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>WHTM 01-05 | Gwnaed taliad ac rydym yn aros am ddyddiad i Ultrawave drefnu i ddilysu'r ddau beiriant. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | 31 Gorffennaf 2017 |
| Mae angen stampio'r dyddiadau dod i ben a'r dyddiadau prosesu ar y cydau sterileiddio. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Mae'r stamp wedi'i archebu gan Viking ac mae'n cael ei ddefnyddio yn awr. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1) (b)<br><br>WHTM 01-05 11.4 | | | |
| Mae angen adolygu’r polisi dadebru i gynnwys lleoliad yr offer a’r rolau a’r cyfrifoldebau. | Safonau Iechyd a Diogelwch 5.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Canllaw’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6, 6.6.6 | Mae’r polisi dadebru yn cynnwys rolau’r staff a lleoliad offer.<br><br>Anfonwyd y polisi diwygiedig at AGIC. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Mae’n rhaid sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant diweddaru ar | Safonau Iechyd a | Mae’r tystysgrifau wedi’u hanfon at AGIC ar gyfer y ddwy nyrs. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddiogelwch ymbelydredd, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Diogelwch 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Canllaw 7.3.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br><br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | | | |
| Mae'n rhaid i'r deintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael a'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad ar gadw cofnodion ac mae'n rhaid | Safonau Iechyd a Diogelwch 3.3, | Archwiliad i'w drefnu | Huw Jones, Prif Ddeintydd | 30 Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| iddynt wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Cynghorir y practis i gynnal archwiliad ar gadw cofnodion. | 3.5, 4.2<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Canllaw 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pedwar deintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae angen darparu tystiolaeth o hyn i AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 13 (4) | Diweddarwyd tystysgrifau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y pedwar deintydd ac anfonwyd copïau at AGIC. | Janie Cartwright, Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Janie Cartwright**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 11/07/2017**